**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

19 Mehefin 2018

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) 2018**

Yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin 2018, trafodwyd Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) 2018.

Mae ein hadroddiad yn codi pwyntiau technegol a phwyntiau adrodd, ac fe aeth Llywodraeth Cymru i'r afael â'r rhain yn ei hymateb dilynol. Fodd bynnag, daeth yr ymateb hwn i law ar ôl ein cyfarfod ar 11 Mehefin, lle cytunwyd y byddem yn ysgrifennu atoch.

Wrth drafod y Rheoliadau yn wreiddiol, roedd yn siomedig clywed faint o amser a gymerwyd i'w diwygio. Mynegwyd siom hefyd nad oedd mapiau o ardaloedd môr wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol er mwyn rhoi eglurder a helpu'r rheini a sy'n defnyddio'r rheoliadau.

Rydym yn nodi ac yn croesawu eich ymateb i'n pryderon ac yn achub ar y cyfle hwn i ategu pwysigrwydd prydlondeb wrth fynd i'r afael â materion o bwys a phwysigrwydd Memoranda Esboniadol clir hefyd er mwyn helpu pobl i ddeall darpariaethau deddfwriaethol.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565